



<b>Sgrinio trawsffiniol a gynhelir gan yr Arolygiaeth Gynllunio (yr Arolygiaeth) ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol (SoS) at ddibenion Rheoliad 32 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2017 (Rheoliadau AEA 2017)</b>	
<b>Enw'r prosiect:</b>	Fferm Wynt ar y Môr Awel y Môr
<b>Cyfeiriad/Lleoliad:</b>	I'r gorllewin o Fferm Wynt ar y Môr Gwynt y Môr, ac yn union wrth ei hymyl. Byddai ardal yr arâe wedi'i lleoli oddeutu 10.6km oddi wrth arfordir gogledd Cymru, gyda'r cebl allforio ar y môr yn dod i'r lan ar arfordir gogledd-ddwyreiniol Cymru, yn ymestyn i is-orsaf wedi'i lleoli ym Modelwyddan.
<b>Cyfeirnod yr Arolygiaeth Gynllunio:</b>	EN010112
<b>Dyddiad(au) cynnal yr ymarfer sgrinio:</b>	24/09/2021

<b>SGRINIO TRAWSFFINIOL CYNTAF</b>	
<b>Dogfen(nau) a ddefnyddiwyd ar gyfer sgrinio trawsffiniol:</b>	<p>Adroddiad Cwmpasu Asesu Effeithiau Amgylcheddol ('yr Adroddiad Cwmpasu') – dyddiedig mis Mawrth 2020.</p> <p>Adroddiad Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ('Adroddiad Sgrinio HRA') – dyddiedig mis Mawrth 2020.</p> <p>Cyfrol 1, Atodiad 3.2: Adroddiad Sgrinio Trawsffiniol (yr Adroddiad Sgrinio Trawsffiniol') – dyddiedig mis Mawrth 2021.</p>
<b>Meini Prawf Sgrinio:</b>	<b>Sylwadau'r Arolygiaeth:</b>
<b>Nodweddion y Datblygiad</b>	<p>Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn datgan y bydd y Datblygiad Arfaethedig yn cynnwys hyd at 107 o Eneraduron Tyrbin Gwynt (WTG) ac yn rychwantu ardal o oddeutu 106.4km<sup>2</sup>.</p> <p>Mae ardal yr arâe wedi'i lleoli oddi ar arfordir gogledd Cymru ac mae ardal chwilio'r ECR ar y môr yn amgylchynu Fferm Wynt ar y Môr (OWF) bresennol Gwastadeddau'r Rhyl. Y dechnoleg drawsyrro a ddewiswyd ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig yw Cerrynt Eiledol Foltedd Uchel (HVAC).</p> <p>Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn darparu cwmpas dylunio dangosol i'w fireinio yn ystod y broses AEA. Yn dilyn hynny, mae'r Adroddiad Cwmpasu yn cyfeirio at '<i>ardaloedd chwilio</i>' lle y byddai'r arâe ar y môr, llwybr y cebl allforio (ECR) ar y môr, yr ECR ar y tir a'r is-orsaf ar y tir wedi'u lleoli.</p> <p><b>Elfennau ar y Môr:</b></p>

- hyd at 107 o Eneraduron Tyrbin Gwynt gydag ôl troed sylfeini o hyd at 2,827m<sup>2</sup> a chyfanswm ardal arâe o hyd at 106.4 km<sup>2</sup>;
- diamedr rotor o hyd at 300m gydag uchder blaen llafn mwyaf o 332m uwchben Penllanw Cymedrig y Gorllanw (MHWS)/Llanw Seryddol Isaf (LAT) (sic) ac uchder blaen llafn lleiaf o 22m uwchben MHWS;
- mast mesur wedi'i osod ar seilbost â diamedr mwyaf o 5m;
- hyd at ddau blatfform is-orsaf ar y môr (OSP), gydag ôl troed o hyd at 2,827m<sup>2</sup> fesul sylfaen, uchafswm uchder ochr uchaf o 115m uwchben LAT, uchafswm lled ochr uchaf o 50m ac uchafswm hyd ochr uchaf o 80m;
- ceblau rhwng arâe ag uchafswm hyd o 228km, cyfanswm ôl troed aflonyddu ar wely'r môr o hyd at 33km<sup>2</sup> yn ystod y cam gosod;
- gosod deunyddiau i atal erydu – nifer: 107, cyfanswm ôl troed: 4.387km<sup>2</sup>;
- amddiffyn ceblau; a
- hyd at ddau gebl allforio ar y môr (HVAC) â chyfanswm hyd o 80km (40km fesul cebl), cyfanswm ôl troed aflonyddu ar wely'r môr o hyd at 1km<sup>2</sup>.

Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn datgan bod nifer o fathau o sylfeini yn parhau i gael eu hystyried ar gyfer y Generaduron Tyrbin Gwynt a'r Platfformau Is-orsaf ar y Môr. Mae'r rhain yn cynnwys:

- seilbyst unigol;
- seilbyst bwced sugno;
- seilbyst sylfaen disgyrchiant;
- ffrâm seilbyst pinio;
- ffrâm bwced sugno; a
- ffrâm sylfaen disgyrchiant.

Mae llawer o fethodolegau'n parhau i gael eu hystyried ar gyfer gosod y ceblau rhwng arâe ac allforio ar y môr. Mae'r rhain yn cynnwys:

- ffrwd-dorri ffosydd;
- cyflwr cyn-dorri ac ar ôl gosod (neu osod a throi ar yr un pryd);
- torri ffosydd yn fecanyddol;
- treillio;
- cloddio màs-lif;
- torri creigiau; a
- sled gladdu.

Mae'n bosibl y bydd angen amddiffyn ceblau hefyd os nad oes modd claddu'r ceblau rhwng arâe ac allforio, ond nid yw'r Ymgeisydd wedi pennu graddau unrhyw amddiffyniad eto. Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn datgan bod nifer o fathau o ddeunyddiau i

	<p>atal erydu (a dulliau gosod cysylltiedig) ar gyfer sylfeini Generaduron Tyrbin Gwynt a Phlatfformau Is-orsaf ar y Môr yn cael eu hystyried o hyd. Mae'r rhain yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• lleoli cerrig neu raean;</li> <li>• matresi concrit;</li> <li>• dyfeisiau gwasgaru ynni llif;</li> <li>• ffedogau neu orchuddion concrit neu blastig dwysedd uchel; a</li> <li>• datrysiadau bag.</li> </ul> <p>Byddai arwynebedd mwyaf y deunyddiau i atal erydu fesul sylfaen, gan gynnwys arwynebedd ôl troed y strwythur, oddeutu 41,000m<sup>2</sup>.</p> <p><b>Elfennau ar y Tir:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• hyd at ddau gebl allforio ar y tir â chyfanswm hyd o 30km (15km fesul cebl);</li> <li>• Baeau Uniadau Glanfa a Phontio (TJB) – nifer: 2, cyfanswm ôl-troed: 15,000m<sup>2</sup>;</li> <li>• arwynebedd safle is-orsaf ar y tir o hyd at 50,000m<sup>2</sup> yn cynnwys 5 adeilad ag uchder mwyaf o 15m, cyfanswm ôl troed: 50,000m<sup>2</sup>; ac</li> <li>• ymestyn adeilad Is-orsaf Wedi'i Hinswleiddio â Nwy (GIS) ac is-orsaf y Grid Cenedlaethol yn is-orsaf bresennol Bodelwyddan.</li> </ul> <p>Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn datgan y byddai'r ceblau allforio ar y tir yn cael eu gosod yn bennaf trwy gyfuniad o ddull torri agored a drilio cyfeiriadol llorweddol. Disgwylir y cais Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig yn 2022. Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn datgan bod y Datblygiad Arfaethedig yn debygol o ddechrau cael ei adeiladu yn 2026 a bod yn weithredol erbyn 2028. Oes weithredol y Datblygiad Arfaethedig fyddai oddeutu 25 mlynedd.</p>
<p><b>Lleoliad y Datblygiad (gan gynnwys defnydd presennol) a'r ardal Ddaearyddol</b></p>	<p><b>Y Safle ar y Môr a'i Amgylchoedd</b></p> <p>Mae elfennau ar y môr y Datblygiad Arfaethedig ym Môr Iwerddon oddi ar arfordir gogledd-ddwyreiniol Cymru, i'r gorllewin o Afon Dyfrdwy ac i'r dwyrain o Gonwy. Mae'r arâe Generaduron Tyrbin Gwynt wedi'i lleoli 10.6km oddi ar arfordir gogledd Cymru.</p> <p>Mae ardal chwilio ECR ar y môr Fferm Wynt ar y Môr Awel y Môr yn amgylchynu Fferm Wynt ar y Môr bresennol Gwastadeddau'r Rhyl, ac mae'n cydreddeg â phrif geblau allforio'r Fferm Wynt ar y Môr, piblinellau nwy a Rhyng-gysylltydd Dwyrain-Gorllewin Eirgrid, sy'n cysylltu gridiau trydan Iwerddon a'r Deyrnas Unedig.</p> <p>Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn amlygu nifer o ddefnyddiau presennol ar gyfer y safle ar y môr a'r ardal amgylchynol y gallai'r Datblygiad Arfaethedig effeithio arnynt. Mae'r rhain yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gweithgareddau hamdden;</li> <li>• pysgodfeydd masnachol;</li> <li>• treillio agregau morol;</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• llwybrau tramwy Cymdeithas Cynhyrchwyr Agregau Morol Prydain (BMPA); a</li> <li>• thraffig morgludiant, gan gynnwys llongau cynnal a chadw ar gyfer Fferm Wynt ar y Môr Gwynt y Môr a llongau sy'n gweithredu allan o Harbwr Lerpwl.</li> </ul> <p>Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn rhestru pum Fferm Wynt ar y Môr weithredol sy'n gyfagos i'r Datblygiad Arfaethedig, sef:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwynt y Môr (gerllaw ardal yr aráe);</li> <li>• Gogledd Hoyle (11km i'r dwyrain o ardal yr aráe);</li> <li>• Gwastadeddau'r Rhyl (sy'n cydreddeg â'r ardal chwilio ECR ar y môr);</li> <li>• Banc Burbo (26km i'r dwyrain o ardal yr aráe); ac</li> <li>• Estyniad Banc Burbo (16km i'r dwyrain o ardal yr aráe).</li> </ul> <p><b>Y Safle ar y Tir a'i Amgylchoedd</b></p> <p>Mae elfennau ar y tir y Datblygiad Arfaethedig wedi'u lleoli ar arfordir gogledd-ddwyreiniol Cymru, i'r gorllewin o Afon Dyfrdwy ac i'r dwyrain o Gonwy, o fewn siroedd Sir Ddinbych a Chonwy.</p> <p>Mae union leoliad y lanfa a llwybr y ceblau ar y tir yn dal i gael ei fireinio. Fodd bynnag, mae'r Adroddiad Cwmpasu yn nodi y bydd y lanfa mewn lleoliad rhwng Bae Colwyn a Phrestatyn ar arfordir gogledd Cymru. Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn amlygu nifer o ddefnyddiau presennol ar gyfer y safle ar y tir a'r ardal amgylchynol y gallai'r Datblygiad Arfaethedig effeithio arnynt. Mae'r rhain yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• twristiaeth;</li> <li>• ardaloedd diogelu mwynau;</li> <li>• y rhwydwaith ffyrdd, gan gynnwys gwibffordd Gogledd Cymru yr A55; a'r</li> <li>• rhwydwaith rheilffyrdd, gan gynnwys gorsafoedd yn y Rhyl, Abergele a Phrestatyn.</li> </ul>
<p><b>Pwysigrwydd Amgylcheddol</b></p>	<p><b>Ar y Môr</b></p> <p><i>Ansawdd dŵr:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn amlygu nifer o gyrff y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr (WFD) o fewn 2km o'r Datblygiad Arfaethedig. Mae'r rhain yn cynnwys corff dŵr arfordirol WFD Gogledd Cymru a chorff dŵr aberol WFD Clwyd sy'n cydreddeg â'r ardal chwilio ECR ar y môr. Mae corff dŵr arfordirol WFD Gogledd Cymru yn cydreddeg â'r ardal chwilio ECR ar y môr.</li> </ul> <p><i>Ecoleg Fenthig Islanw a Rhynglanw:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Y Fenai a Bae Conwy wedi'i lleoli gerllaw'r ardal chwilio ECR ar y môr, ac mae wedi'i dynodi ar gyfer cynefinoedd morol gan gynnwys banciau tywod, fflatiau llaid a riffiau.</li> </ul>

- Mae ACA Aber Dyfrdwy wedi'i lleoli 9.3km i ffwrdd o'r ardal chwilio ECR ar y môr, ac mae wedi'i dynodi ar gyfer cynefinoedd morol gan gynnwys fflatiau llaid, *Salicornia* a phlanhigion unflwydd eraill ar laid a dolydd heli'r Iwerydd.
- Mae Parth Cadwraeth Morol (MCZ) Fylde wedi'i leoli 25.8km o ardal arâe y Datblygiad Arfaethedig, ac mae wedi'i ddynodi ar gyfer cynefinoedd islanw a llaid islanw.

*Ecoleg Pysgod a Physgod Cregyn:*

- Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn amlygu nifer o feysydd silio a magu ar gyfer rhywogaethau sy'n bwysig yn fasnachol yn yr ardal astudio pysgod a physgod cregyn, gan gynnwys llymriaid, penfreision, a chregyn y brenin/cregyn y frenhines.
- Dywedir bod rhywogaethau pysgod mudol a allai fod yn bresennol yn ardal astudio'r Adroddiad Cwmpasu yn cynnwys gwangod, herlod, llysywod pendoll y môr, eogiaid yr Iwerydd, brithyllod y môr a llysywod Ewropeaidd. Mae'r rhywogaethau hyn yn nodweddion cymhwyso ar gyfer sawl safle dynodedig hefyd, gan gynnwys ACA Aber Dyfrdwy, ACA Y Fenai a Bae Conwy ac ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid.
- Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn cofnodi gweithgarwch pysgota masnachol o fewn ardal yr arâe ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig, gan gynnwys llongau pysgota â chewyll a threillwyr cregyn bylchog.
- Gallai'r cynefinoedd dynodedig yn ACA Y Fenai a Bae Conwy ddarparu cynefinoedd silio ar gyfer llymriaid, sy'n rhywogaeth ysglyfaeth allweddol ar gyfer llamidyddion.

*Mamaliaid Môr:*

- Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn amlygu presenoldeb posibl llamidyddion, morloi llwyd, dolffiniaid trwyn potel, dolffiniaid Risso, dolffiniaid cyffredin trwyn byr a morfilod minke yn yr ardal astudio mamaliaid môr ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig.
- Oherwydd natur symudol mamaliaid môr, mae'r Adroddiad Cwmpasu a'r Adroddiad Sgrinio HRA yn nodi cysylltedd posibl rhwng yr ardal astudio mamaliaid môr a nifer o safleoedd ACA dynodedig ar gyfer morloi llwyd, morloi harbwr a/neu lamhidyddion sydd o dan awdurdodaeth gwladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE), gan gynnwys Gweriniaeth Iwerddon a Ffrainc.

*Adareg ar y Môr:*

Mae'r Adroddiad Cwmpasu a'r Adroddiad Sgrinio HRA yn amlygu cysylltedd posibl rhwng yr ardal ar y môr ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA), gan gynnwys:

- Mae Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) Bae Lerpwl yn gorgyffwrdd â'r ardal chwilio ECR ar y môr. Mae nodweddion dynodedig yr AGA yn cynnwys trochyddion gyddfgoch, môr-hwyaid duon a chrynodiaid o rywogaethau mudol.
- Mae AGA a safle Ramsar Aber Dyfrdwy wedi'i lleoli gerllaw'r ardal chwilio ECR ar y môr. Mae nodweddion dynodedig yr AGA

yn cynnwys rhostogod cynffonddu, gylfinirod, môr-wenoliaid cyffredin a chrynodiad o adar dŵr.

- Mae sawl safle AGA o fewn awdurdodaeth Gweriniaeth Iwerddon wedi'u dynodi ar gyfer eu poblogaethau gwylanod coesddu.

#### *Seilwaith ar y môr/llongau:*

- Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn amlygu pum Fferm Wynt ar y Môr weithredol yn agos i ardal arâe Fferm Wynt ar y Môr Awel y Môr, gan gynnwys Gwynt y Môr a Gwastadeddau'r Rhyl. Mae'r ceblau allforio ar gyfer y Ffermydd Gwynt ar y Môr hyn yn gorgyffwrdd â'r ardal chwilio ECR ar y môr. Mae'r Adroddiad Cwmpasu hefyd yn nodi presenoldeb ceblau gweithredol eraill o fewn yr ardal chwilio ECR, ond nid yw'n rhoi rhagor o fanylion.
- Dywedir bod piblinellau nwy sy'n mynd o Fae Lerpwl i'r Parlwr Du ac o feysydd nwy Bae Morecambe i Walney yn union gerllaw'r ardal chwilio ECR ar y môr.
- Mae Rhyng-gysylltydd Dwyrain-Gorllewin Eirgrid, sy'n cysylltu gridiau trydan Iwerddon a Phrydain, wedi'i leoli o fewn yr ardal chwilio ECR ar y môr a gerllaw'r ardal arâe.
- Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn amlygu morgludiant masnachol yn yr ardal, gan gynnwys pedwar llwybr fferïau teithwyr a thraffig tanceri.

#### *Gweddillion archaeolegol:*

Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn amlygu'r posibilrwydd o nodweddion cynhanesyddol sydd wedi'u cadw. Mae nodweddion y gwyddys amdanynt eisoes yn yr ardal yn cynnwys:

- Tair coedwig danddwr a gwelyau mawn rhynglanw yn yr ardal astudio ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig.
- 22 safle llongddrylliad sy'n amrywio o ran oed o'r cyfnod ôl-ganoloesol i'r ugeinfed ganrif, gan gynnwys un safle llongddrylliad gwarchoddedig.

#### *Milwrol a Hedfan Sifil:*

- Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn nodi derbynyddion milwrol a hedfan sifil, gan gynnwys systemau radar sydd wedi'u lleoli'n agos at y Datblygiad Arfaethedig.

#### **Ar y Tir**

##### *Ecoleg ddaearol:*

Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn rhestru nifer o safleoedd dynodedig yng nghyffiniau'r ardal astudio ar y tir ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig. Cofnodwyd y nodweddion canlynol yn yr ardal astudio:

- ACA Coedwigoedd Dyffryn Elwy, sydd wedi'i dynodi ar gyfer fforestydd *Tilio-Acerion* o lethrau, sgrïau a cheunentydd.
- Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Bryn Euryn, sydd wedi'i ddynodi ar gyfer cymunedau glaswelltir a rhywogaethau planhigion ar allfrigiadau creigiog calchfaen.

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• SoDdGa Mynydd Marian, sydd wedi'i ddynodi ar gyfer cymunedau glaswelltir calchfaen a nythfa glesyn serenog.</li> <li>• Calchfaen Llanddulas a SoDdGA Coedwig Castell Gwrych, sydd wedi'i ddynodi ar gyfer cymunedau glaswelltir calchfaen, rhostir a choetir, poblogaethau planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, ieir bach yr haf a gwyfynod, a man clwydo ystlumod pedol lleiaf.</li> <li>• 117 o Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol.</li> <li>• Cynefinoedd Pwysig Iawn, gan gynnwys perllannoedd traddodiadol, coed pori, coetir gwlyb a chors bori ar arfordir a gorlifdir.</li> </ul> <p><i>Yr amgylchedd hanesyddol:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn amlygu nifer o nodweddion hanesyddol yng nghyffiniau'r ECR ar y tir. Mae'r rhain yn cynnwys Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Trefi'r Brenin Edward I (1.5km i ffwrdd), 23 Heneb Gofrestredig o fewn oddeutu 11km, 626 o Adeiladau Rhestredig a 18 Ardal Gadwraeth o fewn 10km o'r ECR ar y tir.</li> </ul>
<p><b>Effeithiau posibl a Lledaeniad</b></p>	<p><b>Ar y môr</b></p> <p><i>Prosesau Ffisegol:</i></p> <p>Effeithiau posibl ar y gyfundrefn hydrodynameg yn ystod gweithredu'r Datblygiad Arfaethedig o ganlyniad i ryngweithio rhwng tonnau a strwythurau sylfaen Generaduron Tyrbin Gwynt (WTG), gan gynnwys y rheiny sy'n perthyn i Ffermydd Gwynt ar y Môr eraill.</p> <p><i>Pysgod a Physgod Cregyn:</i></p> <p>Effeithiau posibl ar bysgod a physgod cregyn sy'n nodweddion o'r safleoedd dynodedig o dan awdurdodaeth gwladwriaethau eraill yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA) neu sydd o werth masnachol iddynt. Mae'r Adroddiad Sgrinio Trawsffiniol yn nodi'r potensial ar gyfer effeithiau o holl gyfnodau'r Datblygiad Arfaethedig, yn enwedig o effeithiau uniongyrchol ar bysgod o sŵn tanddwr a gynhyrchir yn ystod gwaith gosod seilbyst.</p> <p><i>Mamaliaid Môr:</i></p> <p>Effeithiau posibl ar famaliaid môr yn ystod adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Datblygiad Arfaethedig sy'n nodweddion cymhwysol safleoedd dynodedig o dan awdurdodaeth gwladwriaeth EEA. Mae effeithiau posibl a nodwyd yn cynnwys sŵn tanddwr a gynhyrchir yn ystod gosod y sylfeini a gweithredu'r Generaduron Tyrbin Gwynt; colli cynefin silio/magu rhywogaethau ysglyfaeth neu darfu arnynt; ac effeithiau Maes Electromagnetig (EMF).</p> <p><i>Adareg ar y Môr:</i></p> <p>Effeithiau posibl yn ystod gweithredu'r Datblygiad Arfaethedig ar rywogaethau adar sy'n nodweddion cymhwysol safleoedd dynodedig o dan awdurdodaeth gwladwriaeth EEA. Mae effeithiau posibl a nodwyd yn cynnwys gwrthdaro â thyrbinau, dadleoli (h.y. effeithiau rhwystr) a tharfu ar rywogaethau ysglyfaeth.</p>

	<p><i>Pysgodfeydd Masnachol:</i></p> <p>Effeithiau posibl ar bysgodfeydd masnachol, gan gynnwys fflydoedd pysgota rhyngwladol yn ystod adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Datblygiad Arfaethedig.</p> <p><i>Morgludiant a Mordwyaeth:</i></p> <p>Effeithiau posibl ar forgludiant masnachol a mordwyaeth, gan gynnwys fferiau teithwyr masnachol rhwng Lerpwl a Dulyn (Gweriniaeth Iwerddon) yn ystod gweithredu'r Datblygiad Arfaethedig.</p> <p><b>Ar y tir</b></p> <p>Ni nodwyd unrhyw effeithiau yn yr Adroddiad Cwmpasu, yr Adroddiad Sgrinio HRA na'r Adroddiad Sgrinio Trawsffiniol. Ar yr adeg hon, o ystyried y wybodaeth sydd ar gael, mae'r Arolygiaeth o'r farn bod y gweithgareddau ar y tir sy'n gysylltiedig â'r Datblygiad Arfaethedig yn annhebygol o gael effeithiau trawsffiniol arwyddocaol.</p>
<p><b>Hyd a lled</b></p>	<p><b>Ar y môr</b></p> <p><i>Prosesau Ffisegol:</i></p> <p>Gallai effeithiau ddigwydd ar brosesau ffisegol y tu allan i Barth Economaidd Neilltuedig (EEZ) y DU. Fodd bynnag, mae'r Adroddiad Sgrinio Trawsffiniol yn nodi y byddai'r ffeithiau wedi'u cyfyngu i ddyfroedd Ynys Manaw. Ni fyddai unrhyw wladwriaeth EEA yn cael ei heffeithio.</p> <p><i>Pysgod a Physgod Cregyn:</i></p> <p>Mae'r Adroddiad Sgrinio Trawsffiniol yn nodi'r potensial i darfu ar ymddygiad pysgod ymestyn i mewn i Barth Economaidd Neilltuedig (EEZ) Gweriniaeth Iwerddon.</p> <p><i>Mamaliaid Môr:</i></p> <p>Mae'r Adroddiad Cwmpasu a'r Adroddiad Sgrinio HRA yn nodi effeithiau trawsffiniol posibl ar famaliaid môr sy'n gysylltiedig ag Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) o dan awdurdodaeth Gweriniaeth Iwerddon a Ffrainc. Noda'r Arolygiaeth fod yr Adroddiad Sgrinio Trawsffiniol yn cynnig canolbwyntio ar ACAau o fewn EEZ Gweriniaeth Iwerddon.</p> <p><i>Adareg ar y Môr:</i></p> <p>Mae'r Adroddiad Cwmpasu a'r Adroddiad Sgrinio HRA yn nodi effeithiau posibl ar wylanod coesddu sy'n gysylltiedig ag AGAau o dan awdurdodaeth Gweriniaeth Iwerddon. Yn ogystal, mae'r Adroddiad Cwmpasu yn nodi bod poblogaethau môr-wenoliaid bach sy'n gysylltiedig ag Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) Bae Lerpwl ac AGA Aber Dyfrdwy yn symud yn rheolaidd rhwng nythfeydd yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon.</p> <p><i>Pysgodfeydd Masnachol:</i></p> <p>Fel y nodwyd uchod, mae'r Ymgeisydd wedi nodi effeithiau posibl ar rywogaethau pysgod o bwysigrwydd masnachol. Mae'r Adroddiad Sgrinio Trawsffiniol yn datgan y gallai effeithiau groesi</p>



	<p>ffiniau rhyngwladol gan ddisgwyl effeithiau ar fflyd bysgota Gweriniaeth Iwerddon yn bennaf.</p> <p><i>Morgludiant a Mordwyaeth:</i></p> <p>Noda'r Arolygiaeth fod yr Adroddiad Sgrinio Trawsffiniol yn datgan bod effeithiau ar forgludiant yn debygol o fod yn gyfyngedig i EEZ y DU. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, mae'r potensial gan y Datblygiad Arfaethedig i effeithio ar wasanaethau fferi masnachol sy'n rhedeg rhwng Lerpwl a Dulyn.</p>
<b>Maint</b>	Ni nodwyd maint effeithiau posibl ar y cam hwn. Bydd yr Ymgeisydd yn asesu hyn ymhellach yn ystod y broses AEA.
<b>Tebygolrwydd</b>	<p>Nid yw'r tebygolrwydd y bydd effeithiau trawsffiniol posibl yn digwydd wedi'i werthuso'n llawn ar y cam hwn. Fodd bynnag, mae'r Adroddiad Sgrinio Trawsffiniol, yr Adroddiad Sgrinio HRA a'r Adroddiad Cwmpasu yn nodi bod tebygolrwydd uchel y gallai sŵn tanddwr effeithio ar bysgod a mamaliaid môr yn ystod y cam adeiladu. Disgrifir bod tebygolrwydd uchel hefyd y bydd dadleoli a risg gwrthdaro yn ystod y cyfnod gweithredu yn effeithio ar adar môr.</p> <p>Mae'r Arolygiaeth o'r farn, o ystyried y wybodaeth a ddarparwyd yn yr Adroddiad Cwmpasu, yr Adroddiad Sgrinio HRA, a'r Adroddiad Sgrinio Trawsffiniol mai effeithiau ar bysgod a physgod cregyn, mamaliaid môr, adareg ar y môr a morgludiant a mordwyaeth sy'n fwyaf tebygol o achosi effeithiau trawsffiniol arwyddocaol.</p>
<b>Hyd</b>	Nid yw hyd effeithiau trawsffiniol posibl wedi cael ei werthuso'n llawn ar y cam hwn.
<b>Amllder</b>	Nid yw amllder effeithiau trawsffiniol posibl wedi cael ei werthuso'n ar y cam hwn. Fodd bynnag, mae'r Adroddiad Cwmpasu yn nodi bod effeithiau o sŵn tanddwr yn ystod y cyfnod adeiladu yn debygol o fod yn ysbeidiol. Mae effeithiau ar adar môr yn ystod gweithredu yn debygol o fod yn barhaus.
<b>Gwrthdroadwyedd</b>	Nid yw gwrthdroadwyedd effeithiau trawsffiniol posibl wedi cael ei werthuso'n llawn ar y cam hwn. Fodd bynnag, mae'r Adroddiad Sgrinio Trawsffiniol yn awgrymu y gallai effeithiau gweithredu ar famaliaid môr ac adareg ar y môr fod yn wrthdroadwy ar ôl datgomisiynu'r Datblygiad Arfaethedig.
<b>Effeithiau cronol</b>	<p><b>Ar y môr</b></p> <p>Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn datgan y bydd yr asesiad o effeithiau cronol yn ystyried y mathau canlynol o brosiectau:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• datblygiadau ynni adnewyddadwy;</li> <li>• datblygiadau olew a nwy ar y môr;</li> <li>• datblygiadau piblinellau a cheblau;</li> <li>• gweithgareddau porthladd a harbwr;</li> <li>• safleoedd gwaredu morol; a</li> <li>• safleoedd treillio morol.</li> </ul> <p><b>Ar y tir</b></p>

Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn nodi nad oes unrhyw weithgareddau ar y tir wedi cael eu hamlygu a allai arwain at effeithiau ar wladwriaeth EEA, ac mae'n dod i'r casgliad, felly, na allai fod unrhyw effeithiau trawsffiniol cronol.

Nid yw'r Ymgeisydd wedi cynnal asesiad o effeithiau cronol eto, felly nid yw wedi amlygu unrhyw effeithiau cronol trawsffiniol arwyddocaol tebygol ar y cam hwn.

### **Sgrinio trawsffiniol a gynhaliwyd gan yr Arolygiaeth ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol**

O dan Reoliad 32 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2017 (Rheoliadau AEA 2017) ac ar sail y wybodaeth sydd ar gael gan yr Ymgeisydd ar hyn o bryd, mae'r Arolygiaeth o'r farn bod y Datblygiad Arfaethedig **yn debygol** o gael effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd mewn Gwladwriaeth EEA.

Wrth ddod i'r casgliad hwn, mae'r Arolygiaeth wedi defnyddio'r ymagwedd ragofalus (a esbonnir yn ei Nodyn Cyngor Deuddeg: Effeithiau Trawsffiniol) ac wedi ystyried y wybodaeth a gyflenwyd gan yr Ymgeisydd ar hyn o bryd.

#### **Cam gweithredu:**

Mae angen hysbysu am faterion trawsffiniol o dan Reoliad 32 Rheoliadau AEA 2017.

Rhaid hysbysu'r gwladwriaethau canlynol:

- Gweriniaeth Iwerddon; a
- Ffrainc.

O ran Gweriniaeth Iwerddon, mae'r rhesymau dros hysbysu'n ymwneud ag effeithiau posibl ar boblogaethau pysgod a physgod cregyn, poblogaethau o bwysigrwydd cadwraeth (pysgod, mamaliaid môr ac adar môr) a morgludiant masnachol. O ran Ffrainc, mae'r rheswm dros hysbysu'n ymwneud ag effeithiau posibl ar boblogaethau mamaliaid môr sydd o bwysigrwydd cadwraeth.

**Dyddiad:** 24/09/2021

**Sylwer:** Mae dyletswydd yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Reoliad 32 Rheoliadau AEA 2017 yn parhau drwy gydol proses y cais.

#### **Nodyn:**

Mae'r Arolygiaeth wedi sgrinio materion trawsffiniol yn seiliedig ar yr ystyriaethau perthnasol a nodir yn yr Atodiad i'w Nodyn Cyngor Deuddeg, sydd ar gael ar ein gwefan yn <https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/legislation-and-advice/advice-notes/>

**Transboundary screening undertaken by the Planning Inspectorate (the Inspectorate) on behalf of the Secretary of State (SoS) for the purposes of Regulation 32 of The Infrastructure Planning (Environmental Impact Assessment) Regulations 2017 (the 2017 EIA Regulations)**

<b>Project name:</b>	Awel y Môr Offshore Wind Farm (OWF)
<b>Address/Location:</b>	To the west of, and immediately adjacent to, the Gwynt y Môr Offshore Wind Farm. The array area would be located approximately 10.6km off the coast of North Wales with the offshore export cable making landfall on the north east coast of Wales extending to a substation located in Bodelwyddan.
<b>Planning Inspectorate Ref:</b>	EN010112
<b>Date(s) screening undertaken:</b>	24/09/2021

**FIRST TRANSBOUNDARY SCREENING**

<b>Document(s) used for transboundary Screening:</b>	<p>Environmental Impact Assessment (EIA) Scoping Report ('the Scoping Report') – dated March 2020.</p> <p>Habitat Regulations Assessment (HRA) Screening Report ('the HRA Screening Report') – dated March 2020.</p> <p>Volume 1, Annex 3.2: Transboundary Screening Report ('the Transboundary Screening Report') – dated March 2021.</p>
<b>Screening Criteria:</b>	<b>The Inspectorate's Comments:</b>
<b>Characteristics of the Development</b>	<p>The Scoping Report states the Proposed Development will consist of up to 107 Wind Turbine Generators (WTGs) and cover an area of approximately 106.4km<sup>2</sup>.</p> <p>The array area is located off the north coast of Wales and the offshore ECR search area surrounds the existing Rhyl Flats OWF. The transmission technology chosen for the Proposed Development is High Voltage Alternating Current (HVAC).</p> <p>The Scoping Report provides an indicative design envelope to be refined during the EIA process. Subsequently, the Scoping Report refers to 'search areas' within which the offshore array, offshore export cable route (ECR), onshore ECR and onshore substation would be located.</p> <p><b>Offshore Components:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• up to 107 WTGs with a foundation footprint of up to 2,827m<sup>2</sup> and total array area of up to 106.4 km<sup>2</sup>;</li> </ul>

- rotor diameter up to 300m with a maximum blade tip height above Mean High Water Springs (MHWS)/Lowest Astronomical Tide (LAT) of 332m and a minimum lower blade tip height of tip height of 22m above MHWS;
- a met mast installed on a monopile with a maximum diameter of 5m;
- up to two offshore substation platforms (OSP), footprint per foundation of up to 2,827m<sup>2</sup>, maximum topside height of 115m above LAT, maximum topside width of 50m and maximum topside length of 80m;
- inter-array cables with a maximum length: 228km, total footprint of seabed disturbance during installation of up to 33km<sup>2</sup>;
- scour protection – number: 107, total footprint: 4.387km<sup>2</sup>;
- cable protection; and
- up to two offshore export cables (HVAC) with a total length of 80km (40km per cable), total footprint of seabed disturbance of up to 1km<sup>2</sup>.

The Scoping Report states that multiple foundation types remain under consideration for the WTGs and OSPs. These include:

- monopile;
- suction bucket monopile;
- gravity base monopile;
- pin piled jacket;
- suction bucket jacket; and
- gravity base jacket.

Multiple methodologies remain under consideration for the installation of inter-array and offshore export cables. These include:

- jet trenching;
- pre-cut and post lay ploughing (or simultaneous lay and plough);
- mechanical trenching;
- dredging;
- mass flow excavation;
- rock cutting; and
- burial sledge.

Cable protection may also be required if it is not possible to bury the inter-array and export cables, but the extent of any protection has still to be determined by the Applicant. The Scoping Report states that multiple types of scour protection (and associated installation methods) for WTG and OSP foundations remain under consideration. These include:

- rock or gravel placement;
- concrete mattresses;

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• flow energy dissipation devices;</li> <li>• concrete or high-density plastic aprons or coverings; and</li> <li>• bagged solutions.</li> </ul> <p>The maximum area of scour protection per foundation, including the structure footprint area would be around 41,000m<sup>2</sup>.</p> <p><b>Onshore Components:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• up to two onshore export cables with a total length of 30km (15km per cable);</li> <li>• Landfall and Transition Joint Bays (TJB) – number: 2, total footprint: 15,000m<sup>2</sup>;</li> <li>• onshore substation site area of up to 50,000m<sup>2</sup> consisting of 5 buildings with a maximum height of 15m, total footprint: 50,000m<sup>2</sup>; and</li> <li>• extension of National Grid Gas Insulated Substation (GIS) building and substation at the existing Bodelyddan substation.</li> </ul> <p>The Scoping Report states that the installation of onshore export cables would be primarily through a combination of open cut method and horizontal directional drilling. The Development Consent Order (DCO) application for the Proposed Development is anticipated in 2022. The Scoping Report states construction of the Proposed Development is likely to commence in 2026 and be operational by 2028. The operational lifetime of the Proposed Development would be approximately 25 years.</p>
